ECAD6010: Dadansoddi Data

Sesiwn 10

Dadansoddi Data:

Photo by Arie Wubben on Unsplash

Tasg:

- Darllenwch Braun, V. a Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2). tt. 77-101

This Photo by Unknown author is licensed under CC BY-SA-NC.



Safleoldeb Ymchwilydd

Sut gallai safleoldeb ymchwilydd effeithio ar y dadansoddiad o'ch data?

Dadansoddi Data

Dylai’r ffordd rydych chi’n dadansoddi’r data fodloni nod/nodau’r ymchwil – dylai fod yn ‘addas i’r diben’ (gweler Cohen et al., 2011)

h.y. beth ydych chi eisiau i'r data ei wneud? Er enghraifft:

- Disgrifio
- Crynhoi
- Dehongli
- Creu themâu
- Deall unigolion
- Deall grwpiau
- Codi materion
- Arddangos
- Archwilio?

Gweithgaredd

- Ewch yn ôl at eich cwestiwn ymchwil.
- Pa rai o'r elfennau hyn (o'r sleid flaenorol) ydych chi'n ceisio eu hateb?

This Photo by Unknown author is licensed under CC BY-NC-ND.

Rheoli Data

Os ydych chi'n dechrau prosiect ymchwil newydd, bydd angen i chi ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli data ymchwil.

- **Storio a Chadw Copi wrth Gefn:** Sut bydd y data’n cael eu storio a chopi wrth gefn yn cael ei gadw yn ystod yr ymchwil? Sut byddwch chi'n rheoli mynediad a diogelwch?
- **Dewis a Diogelu:** Pa ddata dylid eu cadw, eu rhannu a/neu’u diogelu? Beth yw’r cynllun diogelu tymor hir ar gyfer y set ddata?
- **Rhannu Data:** Sut byddwch chi’n rhannu eich data? A oes angen unrhyw gyfyngiadau ar rannu data?
- **Cyfrifoldebau ac Adnoddau:** Pwy fydd yn gyfrifol am reoli data?

Tasg: Adolygu eich data – trefnu a dosbarthu’r data a’u gwneud yn ddienw

Data Analysis Worksheet 1

Reviewing and Managing your Data

Research Question:

_____

_____

_____

Data Log

ID	Type	Date	Description	Participants	Format	Notes
For e.g. Ob1	*Observation notes*	*30/1/19*	*30 minutes session at School A. 1st of four sessions on using creative practice to improve wellbeing. Observation framework: activities; goals; events; resources; discourse around creativity and wellbeing; feelings.*	*N = 6 teachers/TAs from School A*	*Transcribed, Word file*	*Participant 7 withdrew form research. Obs notes written by hand, and later transcribed*

Data Ansoddol a Meintiol

- Mae data meintiol yn cyfeirio at wybodaeth rifiadol a gynhyrchir drwy'r broses ymchwil y gellir ei deall, ei chynrychioli a'i dadansoddi'n ystadegol.

- Mae data ansoddol yn anrhifiadol (e.e. testun, delwedd, sain) ac mae'n cynnig adroddiad disgrifiadol i’r ymchwilydd o'r ffenomen a astudir.



This Photo by Unknown author is licensed under CC BY-SA-NC.

Dilysrwydd a dibynadwyedd

- Mewn **data ansoddol**, mae dilysrwydd yn cyfeirio at y broses o bennu cywirdeb y canfyddiadau o safbwynt yr ymchwilydd, y cyfranogwyr, a/neu ddefnyddwyr yr ymchwil (Lincoln, Lynham, & Guba, 2013).

- Mewn **data meintiol** mae dilysrwydd yn ffactor o samplu gofalus, defnydd priodol o offer casglu data, a dadansoddi ystadegol

- Mae dibynadwyedd yn cyfeirio at ‘gadernid’ yr ymchwil (Rose & Johnson 2020), h.y. pa mor ddibynadwy a chyson yw'r data ac a oes modd eu hatgynhyrchu.


• the application of research results to cases or situations beyond those examined in the study
• the degree to which an assessment tool produces stable and consistent results.
Generalisation
Reliability
Representative sample
Validity
• a small quantity of something that accurately reflects the larger entity
the credibility or believability of the research. Are the findings genuine?

Sicrhau Cywirdeb mewn Data Ansoddol (Bloomberg & Volpe, 2019)

- Natur gredadwy (hygrededd) – triongli dulliau, adfyfyrio ar ragfarn/rhagdybiaethau, caniatáu i ddata 'siarad drostynt eu hunain’
- Natur ddibynadwy (cysondeb) – gwendidau o ran yr offer casglu data? Defnyddio'r dull gorau i ateb cwestiwn?
- Natur gadarnhadwy (modd ei gadarnhau) – Triongli i leihau rhagfarn ymchwilwyr – a fyddai rhywun arall yn dod i gasgliadau tebyg?
- Natur drosglwyddadwy (modd ei gymhwyso) – a oes digon o gyd-destun (data cyfoethog) i gyfleu ystyr yn ddilys?, a all darllenwyr ddefnyddio hyn i ddatblygu dealltwriaeth ddofn?

Atgyrchedd a thryloywder

Mae'n werth cofio na all unrhyw ymchwil fyth fod 100% yn ddilys neu'n ddibynadwy

Er mwyn cynyddu lefelau dilysrwydd a dibynadwyedd, mae'n bwysig i ymchwilwyr fabwysiadu dull atgyrchol.

Os yw ymchwilydd yn disgrifio'n glir groestoriad cyd-destunol y perthnasoedd (e.e., hil, statws economaidd-gymdeithasol, oedran, cefndir diwylliannol) rhwng y cyfranogwyr ac ef ei hun, mae nid yn unig yn cynyddu hygrededd y canfyddiadau ond hefyd yn dyfnhau ein dealltwriaeth o'r gwaith (Berger, 2015).

Data Ansoddol: Dadansoddiad Thematig



Mae Braun a Clarke (2006) yn diffinio dadansoddiad thematig fel,

“dull o ddynodi, dadansoddi ac adrodd patrymau o fewn data” (t.79)

ac yn cynnig proses chwe cham ar gyfer cyflawni’r dadansoddiad hwn, fel a ganlyn:

Codio eich data

Pwrpas codio yw cymhwyso themâu ac is-themâu i'r data

Rydych yn ceisio trefnu'r data yn ‘ddarnau’ hylaw fel y gallwch gymharu ymatebion perthnasol

Figure 7 Coding interview data

1	Start by making a list of the particular things that you are interested in and give each one a name – these become your code labels. Alternatively or as well, you may assign each code a colour.
2	Select a code label and go through the interview notes (or transcript) and mark every time it occurs. How you do this is up to you - some people use hard copies, others do it on screen. Repeat this step with the other codes.
3	Repeat step two with all the interview notes.

(NFER, 2013, t.11)

Proses ddadansoddi thematig:

1. Ymgyfarwyddo â data
2. Cynhyrchu codau rhagarweiniol i ddisgrifio'r data (codio agored)
3. Adnabod themâu – chwilio am batrymau neu themâu
4. Adolygu themâu i greu map thematig o'r dadansoddiad
5. Diffinio ac enwi themâu, gan gynnwys dadansoddiad parhaus sy'n adrodd y stori gyffredinol

(Braun a Clarke, 2006)

Cam 6: Adrodd

Cyfeiriadau

- Berger, R. (2015) Now I see it, now I don't: Researcher's position and reflexivity in qualitative research. *Qualitative Research*, 15(2), 219–234.
- Bloomberg, L.D. and Volpe, M. (2019) *Completing your Qualitative Dissertation: A road map from beginning to end* 4th Edition. CA: Sage.
- Braun, V. and Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2). pp. 77-101
- Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education. 7th Edition.* London: Routledge.
- Lincoln, Y., Lynham, S., & Guba, E. (2013). Paradigmatic controversies, contradictions, and emerging confluences, revisited. In N. Denzin & Y. Lincoln (Eds.), *The landscape of qualitative research* (4th ed., pp. 199–266). Thousand Oaks, CA: SAGE.
- Nfer (2013) How to Run qualitative and quantitative research. Berkshire: NFER. https://www.nfer.ac.uk/media/2123/resm03.pdf